

YSGOLORIAETH BENSÆRNIAETH £1500



Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Ynys Môn
4 – 12 Awst 2017



Cefnogwyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru

Sefydlwyd yr ysgoloriaeth hon er mwyn hybu pensaernïaeth a dylunio yng Nghymru. Dyfernir yr ysgoloriaeth i'r ymgeisydd mwyaf addawol er mwyn ei alluogi i ehangu ei ymwybyddiaeth o bensaernïaeth greadigol.

Bydd yr ysgoloriaeth yn agored i'r sawl dan 25 oed adeg yr Eisteddfod, a aned yng Nghymru neu sydd o dras Gymreig, neu a fu'n byw neu'n gweithio yng Nghymru am y tair blynedd cyn 4 Awst 2017, neu sy'n medru siarad neu ysgrifennu Cymraeg.

Ysgoloriaeth i'w dal am flwyddyn yn unig yw hon a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn £1,500 i hyrwyddo gyrfa.

Bydd hawl gan y detholwyr i atal yr ysgoloriaeth neu i'w rhannu rhwng mwy nag un ymgeisydd.

Disgwylir i bob ymgeisydd baratoi portffolio digidol ar CD caeedig neu USB ac ystyfir dangos y gwaith a gyflwynwyd yn Y Lle Celf yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol.

Disgwylir i enillydd yr ysgoloriaeth gyflwyno traethawd gweledol i'w arddangos yn yr Eisteddfod ganlynol.

Croesewir ceisiadau o feysydd pensaernïaeth, tirlunio a dylunio. Dehonglir y gair pensaernïaeth yn y modd ehangaf. Yn ogystal, croesewir ceisiadau gan rai nad ydynt yn benseiri cymwysedig neu'n fyfyrwyr pensaernïaeth.

Detholwyr: Paul Harries (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant), Jacqui Walmsley (Hoole & Walmsley, Dinas Powys a'r Fenni)

AMODAU ARBENNIG

1. Pwy sy'n cael cystadlu?

Mae'r ysgoloriaeth yn agored i'r rhai o dan 25 oed adeg yr Eisteddfod, a aned yng Nghymru neu ag iddynt rieni o Gymry, neu a fu'n byw neu'n gweithio yng Nghymru am y tair blynedd cyn 4 Awst 2017, neu sy'n siarad neu ysgrifennu Cymraeg.

2. Ffurflenni cais a thâl

£10.00 yw'r tâl cystadlu. Gwahoddir ymgeiswyr i anfon portffolio digidol ar CD caeedig neu USB y mae modd ei ddarllen ar blatfform Mac a PC. Mae'r mathau o ffeiliau sy'n dderbyniol yn cynnwys PDF (Acrobat Reader), Word, PowerPoint, Quicktime, AVI, JPEG, PICT, EPS, GIFs, HTML, Flashmovie a Director Projector. Defnyddir monitor 72dpi i wlyo'r ffeiliau. Fel canllaw, ni ddylai'r ffeiliau fod yn fwy nag 1mb. Os defnyddir fformat gwefan, yr unig wefan plugin sy'n dderbyniol yw Flash, Shockwave a Quicktime. Dylid sicrhau bod pob dolen gyswllt yn gweithio a bod modd agor y ffeiliau yn hwylus. Yn ogystal, dylid cyflwyno cais yn esbonio sut y bwriedir defnyddio'r ysgoloriaeth. Cyfyngir pob cais i 18 tudalen maint A1 ac uchafswm o chwe chynllun.

3. Sut i gystadlu

Anfonwch £10.00, y ffurflen gais wedi ei chwblhau ynghyd â'r ddisg neu'r USB at:

Swyddog Celfyddydau Gweledol, Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU ☎: 0845 4090 300

Sicciau wedi'u croesi'n daladwy i:

Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ynys Môn 2017

4. Yswiriant

Cynghorir ymgeiswyr i yswirio unrhyw ddisg neu USB a anfonir i Swyddfa'r Eisteddfod. Cymerir pob gofal o unrhyw waith y rhoddir derbynneb amdano ac fe fydd yr Eisteddfod yn yswirio'r gweithiau o'r adeg y'u cesglir nes iddynt gael eu dychwelyd at eu perchnogion.

5. Gwybodaeth gyffredinol

a) Mae'r ysgoloriaeth yn ddarostyngedig i'r Rheolau ac Amodau Cyffredinol ac i'r Amodau Arbennig hyn. Rhestrir y Rheolau Cyffredinol yn y Rhestr Testunau, sydd ar gael o Swyddfa'r Eisteddfod.

b) Rhaid i'r gwaith fod yn waith dilys yr ymgeisydd, ac ni ddylai fod wedi ei arddangos mewn unrhyw Eisteddfod Genedlaethol flaenorol.

6. Hawlfraint

Bydd hawlfraint pob gwaith yn eiddo i'r ymgeisydd ond ceidw'r Trefnyddion yr hawl i atgynhyrchu unrhyw waith mewn unrhyw lawlyfr neu wefan perthynol i'r Eisteddfod ac i ganiatáu cyhoeddi lluniau o'r cyflwyniad. Gall unrhyw waith gael ei ddefnyddio at bwrpas cyhoeddusrydd yr Eisteddfod.

7. Derbynnneb

Rhoddir derbynneb swyddogol am bob cais a dderbynnir. Dylid cadw'r derbynneb hyd nes y dychwelir y gwaith.

8. Dychwelyd y ddisg neu'r USB

Os gwelwch yn dda, a wnewch chi gynnwys amlen bwrpasol gyda chyfeiriad a stamp arni ar gyfer dychwelyd y ddisg neu'r USB.

9. Dyfarniad y detholwyr

Bydd dyfarniad y detholwyr yn derfynol.

10. Ysgoloriaeth Bensaernïaeth

Mae'r arian a gynnigir fel Ysgoloriaeth Bensaernïaeth i'w ddefnyddio at hyrwyddo gyrfa. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus brofi i'r Eisteddfod y gwerir yr arian yn unol â'r amod hon

11. Dyddiad cau

Ar gyfer derbyn y ddisg neu'r USB, ffurflen gais a thâl cystadlu: 14 Ebrill 2017.

Cymhwyster

(Rhoddwch X wrth y brawddegau perthnasol)

1. Fe'm ganed yng Nghymru
2. Yr wyf o dras Gymreig
3. Yr wyf wedi byw / gweithio yng Nghymru am y tair blynedd cyn 4 Awst 2017
4. Yr wyf yn siarad / ysgrifennu Cymraeg
5. Dyddiad geni

DERBYNNEB (Swyddfa yn unig)

Derbyniwyd eich cais i'w gyflwyno at sylw detholwyr yr Ysgoloriaeth Bensaernïaeth. Derbyniwyd £10.00 fel tâl ymgeisio.

Arwyddwyd:

Dyddiad:

Rhif cais:

Ysgoloriaeth Bensaernïaeth

Enw:

Cyfeiriad:

Ffôn:

e-bost:

Sut i ymgeisio

Anfoner at sylw'r Swyddog Celfyddydau Gweledol

- Ffi o £10.00
- Ffurflen gais wedi ei chwblhau
- Disg neu USB yn cynnwys y gwaith (dim mwy na chwe chynllun)
- Amlen neu label gyda chyfeiriad a stamp arni ar gyfer dychwelyd y ddisg neu'r USB

Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, CAERDYDD, CF14 5DU

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais: 14 Ebrill 2017